## *… ac Ati – Medi 2011*

## *Conversion of Saint Paul* gan Caravaggio (1571 – 1610)
**Eglwys Santa Maria del Popolo, Rhufain (1600–01).**



Cymeriad gwyllt oedd Caravaggio! Cyfuniad peryglus iawn yw tymer drwg a chleddyf miniog - fe laddodd rhywun mewn dadl dros gêm o dennis; sydd yn gosod "*You can't be serious"* John MacEnroe yn ei iawn gyd-destun! Mewn llawer ystyr, gwybod bod Carvaggio yn ddyn mor wyllt, bydol a chnawdol, sydd yn gwneud y llun hwn mor rymus a threiddgar.

Testun y llun yw Saul - cymeriad cul, caled. 'Roedd Saul ar ei ffordd i erlid Cristnogion yn Damascus, pan yn sydyn, mewn dychryn a braw, daeth Crist a chydio ynddo. Dyma'r foment mae Caravaggio yn cyflwyno i'n sylw. Saul yn gwbl ddall, ei ddwylo a'i goesau ar led. Mae'r hwn sydd yn eistedd ar gefn ceffyl yn berson mewn awdurdod, yn uwch ac yn well; ond dyma Saul, wedi syrthio oddi ar ei geffyl, ar wastad ei gefn, yn gwbl ddiamddiffyn. Sylwch, mae ei gleddyf a'i holl arfogaeth yn ddi-werth bellach. Sylwch, hefyd, ar y defnydd o'r lliw coch yn y clogyn - coch yw lliw cyfoeth, dylanwad, awdurdod a grym. Mae hyn i gyd nawr ar lawr. Mae Saul wedi ei lorio.

Dyma geffyl. Mae'r ceffyl mawr cyhyrog hwn yn hawlio hanner y cynfas. A beth mae'r ceffyl yn gwneud? Mae'r ceffyl yn ofalus rhag camu ar y truan bach hwn sydd wedi syrthio'n ddirybudd a diseremoni oddi ar ei gefn i'r llawr oddi tano. Dyma Saul, y dyn a deimlodd fod ganddo'r hawl i farnu a chondemnio eraill ar lawr o dan draed y ceffyl hwn, ac mae'r ceffyl yn fwy effro i gyflwr truenus Saul na fu Saul erioed i anghenion a chyflwr ei gyd-ddyn!

Yn y cefndir, y marchwas. Nid yw hwn yn poeni dim ond am les ei gyfrifoldeb - y ceffyl. Yn dyner mae'n arwain y ceffyl i ffwrdd, ac mewn eiliad byddwn yn cael ein gadael gyda chynfas gwag, tywyll ar wahân i Saul ar wastad ei gefn.

Mae angen i'r hyn a ddigwyddodd i Saul ddigwydd i bawb ohonom o bryd i'w gilydd, Mae cariad Duw yng Nghrist yn cynnal, cadw, coleddu a gofalu. Ond mae'r cariad hwn weithiau yn gallu gafael mewn pobl fel ni a'n tynnu ni lawr; a hynny er mwyn ein codi ni i fyny eto ar ein traed yn well a gwahanol bobl.